## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 20-09)

**Dyddiad:** **23 Medi 2009**
**Amser:** **9.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

## CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 23 Medi 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, Mike German AC, William Graham AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC a David Melding AC. Roedd William Graham AC yn dirprwyo yn lle David Melding AC.

Cafodd y Pwyllgor wybod am newid sydd i'w wneud i'w aelodaeth. Diolchodd y Cadeirydd i David Melding AC am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC314 - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 20 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Awst 2009

**SLC315 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 20 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Awst 2009

**SLC316 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 20 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 21 Gorffennaf 2009

**SLC317 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym ar 31 Awst 2009

**SLC318 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2009**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym ar 28 Awst 2009

**SLC319 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

**SLC320 - Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 5 Awst 2009. Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

**SLC322 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio Rhif 2) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 6 Awst 2009. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

**SLC323 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Awst 2009. Fe'i gosodwyd ar 11 Awst 2009. Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

**SLC324 - Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 14 Awst 2009. Yn dod i rym ar 7 Medi 2009

**SLC325 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 3 Medi 2009. Yn dod i rym ar 28 Medi 2009

**SLC326 - Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 7 Medi 2009. Yn dod i rym ar 28 Medi 2009

**SLC327 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 9 Medi 2009. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2009

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC309 - Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 7 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2009

Nododd yr Aelodau'r ffaith bod y Llywodraeth yn anghytuno â'r pwynt a gafodd sylw yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch anghysondeb yr iaith (credai'r Llywodraeth nad oedd yr anghysondeb yn yr iaith yn arwain at anghysondeb mewn ystyr, ac felly nad oedd angen diwygio'r Rheoliadau hyn). Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n ysgrifennu at Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y mater. Caiff copi o lythyr y Pwyllgor ei anfon at Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ.

**SLC310 – Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 9 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2009

**SLC311 - Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 10 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 1 Awst 2009

**SLC312 - The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs Etc) (Wales) (Amendment) Regulations 2009** (Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig)
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Gorffennaf 2009

Nododd yr Aelodau mai'r rheswm a roddwyd gan y Llywodraeth dros gyhoeddi'r Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig oedd yr amserlen dynn, o ganlyniad i'r angen i ddeddfu ar frys. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y ffaith bod y Rheoliadau mor fyr (tua 548 o eiriau yw'r Rheoliadau a'r Nodyn Esboniadol gyda'i gilydd), penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghylch y mater. Caiff copi o lythyr y Pwyllgor ei anfon at Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ.

**SLC321 – Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Awst 2009. Fe'u gosodwyd ar 6 Awst 2009. Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC313 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 15 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009

Sylwodd y Pwyllgor y gallai’r Rheoliadau hyn gynnwys pwynt adrodd posibl o dan Reol Sefydlog 15.3 (“ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad”). Y rheswm dros hyn oedd y gofyniad i ddefnyddio disgrifiadau Saesneg yn unig ar gyfer dŵr mwynol o dan reoliad 5(2).

Nododd yr Aelodau’r ffaith bod y Llywodraeth yn anghytuno â’r pwynt a gafodd sylw yn yr adroddiad drafft. Gan fod y Rheoliadau hyn wedi’u gwneud yn uniongyrchol yn sgil ail-lunio Cyfarwyddeb yr UE, credai’r Llywodraeth ei bod yn bosibl defnyddio’r iaith Saesneg yn unig wrth ymdrin â gofynion labelu o dan gyfraith yr UE. Nid oedd y Llywodraeth wedi darparu ar gyfer defnyddio’r termau Cymraeg a oedd yn cyfateb i’r termau gorfodol Saesneg, gan na fyddai hynny’n arwain at labelu bwyd yn glir i gwsmeriaid yng ngolwg y Llywodraeth. Nid oedd y Pwyllgor yn fodlon ag ymateb y Llywodraeth a phenderfynwyd ysgrifennu at Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybod iddi am y mater. Caiff copi o lythyr y Pwyllgor ei anfon at Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ. Penderfynodd y Pwyllgor ohirio ystyried y Rheoliadau hyn tan y cyfarfod nesaf, er mwyn clywed ymateb y Gweinidog.

Mae adroddiadau’r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar offerynnau statudol sy’n agored i gael ei dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) i’w gweld yn Atodiadau 1-5.

**Materion eraill**

**Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) 200-**

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur arfaethedig, a osodwyd ar 5 Tachwedd 2008 gan Nerys Evans AC. Nododd yr Aelodau fod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 wrthi’n ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1. Dim ond un pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth y mae’r Mesur arfaethedig yn ei gynnwys, a hwnnw'n bŵer i wneud gorchymyn. Ystyriodd y Pwyllgor y weithdrefn o dan adran 55C(2), a fyddai’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, a chytunodd y byddai’n anfon y cyngor cyfreithiol a baratowyd ynghylch hyn ymlaen at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

**Ymateb gan Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ, i lythyr y Cadeirydd ynghylch y defnydd o’r weithdrefn gadarnhaol/negyddol yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)**

Nododd yr Aelodau ymateb y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ ac ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i argymhelliad y Pwyllgor y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan Adran 60 fod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai’n ysgrifennu at Aelodau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn eu hannog i roi sylw i’r mater hwn yn ystod trafodion cyfnod 2.

**Mesur Tlodi Plant y DU – sesiwn dystiolaeth gyda Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

Fel rhan o'i waith craffu ar Fesur Tlodi Plant y DU a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (caiff y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru" a chyflwyno adroddiad ar hynny), clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried adroddiad drafft mewn perthynas â'r Mesur mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Eitemau 6.2, 7 ac 8 ar yr agenda – Ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion cychwynnol ar gyfer Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Tlodi Plant y DU; Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir y DU: ystyried adroddiad y Pwyllgor; Mesur Cydraddoldeb y DU: ystyried adroddiad y Pwyllgor**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a'r argymhellion ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor ar Fesur Tlodi Plant y DU, Mesir Morol a Mynediad i'r Arfordir y DU, a'r Mesur Cydraddoldeb.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**23 Medi 2009**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-20-09)**

**SLC309**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu ar drin bwyd ag ymbelydredd ïoneiddio (arbelydru) ac ar fewnforio, storio a chludo, at ddibenion gwerthu, fwyd sydd wedi'i arbelydru, a gwerthu'r bwyd hwnnw.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y seiliau a ganlyn:**

Yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau, mae "significant risk" wedi'i gyfieithu fel "risg o bwys" yn ogystal ag fel "risg sylweddol".

Yn Atodlen 2, paragraff 2(ff) o'r fersiwn Gymraeg, mae'r cyfieithiad yn cyfeirio at "risg o bwys", ond yn Atodlen 2, paragraff 2(i), mae'r cyfieithiad yn cyfeirio at "risg sylweddol".

Mae yma anghysondeb yn yr iaith a'r ystyr. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**23 Medi 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau am yr anghysondeb mewn iaith, ond mae ystyron tebyg iawn i'r naill ymadrodd a'r llall ac maent yn gyfieithiadau derbyniol o "significant risk". Nid yw'r anghysondeb mewn iaith fel y cyfryw yn arwain at anghysondeb mewn ystyr, ac felly nid oes angen diwygio'r Rheoliadau hyn.

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-20-09)**

**SLC310**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009**

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud diwygiadau i amrywiol ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth benodedig. Daw'r diwygiadau o ganlyniad i sefydlu strwythur newydd i ddarparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o 1 Hydref 2009 ymlaen.

Mae’r Gorchymyn:-

(i) Yn dirymu Gorchymyn Ymddiriedolaethau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol - Trefniant Arbennig) 1991; ac

(ii) Yn diwygio cyfeiriadau yn yr Offerynnau Statudol canlynol, gan mwyaf, drwy roi “Bwrdd Iechyd Lleol” yn lle Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol”; i wneud darpariaeth i Fyrddau Iechyd Lleol gael eu hychwanegu at y rhestr o gyrff y mae’r naw Offeryn Statudol yn berthnasol iddynt a, phan fo’n briodol, bydd yn sicrhau y bydd y saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cyflawni swyddogaethau penodol a oedd gynt yn cael eu cyflawni gan Ymddiriedolaethau GIG:

Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974;
Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989;
Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997;
Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001;
Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002;
Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002;
Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003;
Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007; a
Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn canlynol.**

Yn nhestun Saesneg rheoliad 5, mae “2002” wedi’i hepgor o deitl y Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) – drafftio diffygiol]

O gofio bod y testun Cymraeg yn gywir ac nad oes unrhyw reoliadau eraill y gellid eu cymysgu â’r cyfeiriad hwn, ystyrir nad yw’n ofynnol newid y ddeddfwriaeth i gywiro’r camgymeriad drafftio hwn a gellir ei gywiro gyda slip cywiro.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**23 Medi 2009**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae’r Llywodraeth yn cytuno â’r pwynt adrodd. Cywirwyd y gwall wrth argraffu’r Gorchymyn gan beri nad oedd angen dyroddi slip cywiro fel a argymhellwyd yn yr adroddiad.

**Atodiad 3**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-20-09)**

**SLC311**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu gydag effaith o 1 Awst 2009 y gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Garddwriaeth Cymru. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau penodol eraill a fydd yn cael eu trosglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr i'w dal at ddibenion addysgol. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau hawliau cyflogeion y gorfforaeth drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i adrodd arno o dan Reol Sefydlog 15.2.**

Mae paragraff 2 o Ran 1, a pharagraff 4 o Ran 2 o'r Atodlen i'r testun Cymraeg <u>ill dau</u> yn disgrifio'r tir yn y cynllun fel tir ag iddo "ymyl du a chroeslinellau". Mae paragraff 2 o Ran 1 yr Atodlen yn y testun Saesneg, yn disgrifio'r tir fel "edged black and hatched", tra bod paragraff 4 o Ran 2 yn ei ddisgrifio fel "edged black and cross hatched" yn ôl eu trefn. Mae anghysondeb yn y disgrifiad o'r tir sy'n cael ei drosglwyddo o fewn y Gorchymyn gan fod dau ddarn o dir yn cael eu disgrifio'n unfath yn y testun Cymraeg [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)]. Hefyd mae anghysondeb rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg o'r disgrifiad o'r naill ddarn o dir neu'r llall [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)].

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**23 Medi 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Rydym yn derbyn y pwynt a wnaed. Mae fersiwn Saesneg y testun yn gywir. Rydym yn cymryd camau i wneud gorchymyn diwygio i ddileu'r anghysondeb. Mae'r gorchymyn wedi ei ddrafftio yn Saesneg ac mae'n cael ei gyfieithu ar hyn o bryd. Mae'n debyg y caiff ei wneud o fewn y pedair i chwe wythnos nesaf a bydd yn dod i rym 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei wneud.

**Atodiad 4**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-20-09)**

**SLC312**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) (Diwygio) 2009**

**Gweithdrefn**: **Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"). Effaith y diwygio yw ychwanegu at yr amgylchiadau lle y gellir archebu'r cyffur Oseltamivir (Tamiflu) ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Yr amgylchiadau ychwanegol yw afiechyd pandemig sy'n peri risg difrifol, neu risg difrifol posibl i iechyd pobl ac mae cyflenwi'r cyffur yn unol â'r protocol yn ymwneud â'r afiechyd hwnnw.

Gwnaed y Rheoliadau ar 9 Gorffennaf 2009 a daethant i rym ar 10 Gorffennaf 2009. Trwy lythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 2009 hysbysodd y Cwnsler Cyffredinol y Llywydd y bu'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau y gallai Meddygon Teulu roi presgripsiynau am gyffuriau gwrth-feirysol fel Tamiflu yn unol â chyfrifoldebau cytundebol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a hynny heb effeithio ar fynediad at driniaeth i unigolion sydd â symtomau o'r afiechyd trwy fferyllfa gymunedol ar bresgripsiwn.

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a ganlyn:**

Nid yw'r Rheoliadau wedi'u gwneud yn Gymraeg a Saesneg [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].

Yn ei lythyr at y Llywydd dywed y Cwnsler Cyffredinol:
"Oherwydd yr angen i gyflwyno'r rheoliadau hyn ar unwaith mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn barnu nad yw'n rhesymol ymarferol eu bod yn cael eu gwneud yn ddwyieithog o fewn y terfyn amser gofynnol".

O gofio byrder eithafol y Rheoliadau* sy'n cynnwys diwygio testun nad oedd angen ei gyfieithu (gwnaed Rheoliadau 2004 yn Saesneg yn unig gan eu bod yn rhan o gyfres o reoliadau a wnaed i hwyluso cyflwyno'r Contract Meddygon Teulu yn 2004), efallai y bydd Aelodau am ystyried ymhellach y datganiad hwn.

*Mae’r Rheoliadau (yn cynnwys y Nodyn Esboniadol) yn gyfanswm o tua 548 o eiriau a’r testun diwygiedig nad oes angen ei gyfieithu yn gyfanswm o 129 gair felly mae 419 gair i’w cyfieithu.  O’r cyfieithiad sydd ei angen mae’r teitl, sy’n ymddangos deirgwaith ond sydd angen ei gyfieithu un waith yn unig yn 15 gair.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**23 Medi 2009**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r ffaith bod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol, o dan amgylchiadau pan na fo deddfwriaeth wedi ei gwneud yn Gymraeg a Saesneg neu pan na fwriedir ei gwneud felly,  i'r Pwyllgor Deddfwriaeth adrodd y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i hynny.

Yr oedd yn ofynnol i'r newidiadau yr oedd y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 gael eu gwneud ar fyrder i hwyluso rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ffliw pandemig cyfredol ac nid oedd yn bosibl llunio fersiwn ddwyieithog o fewn y terfyn amser gofynnol.

**Atodiad 5**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-20-09)**

**SLC321**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002"). Maent yn dwyn o fewn cwmpas Rheoliadau 2002 werthuso perfformiad athrawon ysgol (gan gynnwys athrawon ysgolion meithrin) a gyflogir gan awdurdodau lleol am fwy nag un tymor ysgol ac athrawon a gyflogir gan awdurdodau lleol nad ydynt yn gysylltiedig ag un ysgol yn benodol neu sy'n addysgu y tu allan i sefydliadau ysgol.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn—**

1. Mae teitl y Rheoliadau'n gamarweiniol. Mae'n awgrymu bod rheoliadau sydd â chymhwysiad ehangach yn cael eu diwygio mewn perthynas â Chymru yn unig. Mewn gwirionedd, mae "(Cymru)" yn rhan o deitl y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio (oherwydd eu bod yn berthnasol i Gymru yn unig), ac felly dylai hyn ddod o flaen "(Diwygio)" yn nheitl y Rheoliadau presennol. [Rheol Sefydlog 15.2(v)]

2. Mae'r hyn a ychwanegir gan reoliad 5 yn cynnwys yr ymadrodd "Pan fo ysgol wedi'i phenodi yn werthuswr yn unol â rheoliad 36(2)". Ond nid yw'r rheoliad hwnnw'n ymdrin â phenodi gwerthuswr, ond yn hytrach â dirprwyo dyletswyddau. Ymhellach, dirprwyir y dyletswyddau i athro, ac nid i ysgol. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

3. Yn rheoliad 38(1), yr awdurdod sydd i benderfynu beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso sy'n ddarostyngedig i reoliadau 39 i 43. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau y mae rheoliad 38(2) yn gymwys iddynt, y corff llywodraethu sydd i benderfynu ar y gweithdrefnau sy'n ddarostyngedig i reoliadau 39 i 41. Nid oes rheswm amlwg pam na ddylai rheoliadau 42 (yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso) a 43 (Apeliadau) fod mor gymwys i reoliad 38(2) ag y maent i reoliad 38(1). Ymddengys felly fod hwn yn wall drafftio. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

4. Yn rheoliad 43(8), ceir cyfeiriad at "Rhaid cwblhau pob gweithdrefn werthuso y penderfynir ei hailadrodd o dan baragraff (7)". Fodd bynnag,

mae'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â phenderfyniad o'r fath ym mharagraff (6), ac nid (7). [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**23 Medi 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'n edifar gennym fod teitl y Rheoliadau hyn yn gamarweiniol. Rydym yn derbyn fod yna wallau drafftio fel yr adroddir ym mharagraffau 2 i 4. Byddwn yn paratoi rheoliadau diwygio. Dylai'r rhain fod wedi'u llofnodi a'u gosod o fewn y tri mis nesaf.